age connects
castell-nedd
port talbot.

# Cynnyrch a Gwasanaethau

Enw Da • Dyfodol Disglair



Annibynnol • Lleol • Gwrando

# Croeso i Age Connects Castell-nedd Port Talbot

Age Connects Castell-nedd Port Talbot yw teitl gweithredu Age Concern Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn elusen leol annibynnol ac yn gwmni di-elw. Ein nod yw darparu'r cymorth, cefnogaeth a gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl hŷn (dros 50 oed) i fyw bywyd iachach, mwy actif ac annibynnol. Nid yw hon yn dasg rhwydd, oherwydd bod gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth sy'n heneiddio ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

## Cyngor a Gwybodaeth

Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o wybodaeth a chyngor rhad ac am ddim i helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, a gwneud bywyd mor rhwydd â phosibl.

Mae ein tîm o staff a gwirfoddolwyr ymroddedig yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth annibynnol a chyfrinachol ynghylch amrywiaeth eang o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i ofal, cyfreithiol, iechyd, tai, incwm a budd-daliadau, defnyddwyr, hamdden, dysgu a gwaith.







## Mannau Gwybodaeth am y Gymdogaeth

Cadwch lygad yn agored am ein Mannau Gwybodaeth am y Gymdogaeth, a leolir ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys lobi Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Mae'r rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth rhad ac am ddim am amrywiaeth o bynciau.

## Cyfleusterau Cyfarfod

Mae ystod o ystafelloedd hyfforddi /cyfarfod ar gael i'w llogi sy'n cynnwys di-wifr am ddim.

Ffoniwch **01639 617 333** i gael mwy o wybodaeth.

Fel arall, gallwch ddod i'n swyddfa yn Stryd Alfred, Castell-nedd rhwng 9am - 3pm, dydd Llun i ddydd Gwener.





## Gwasanaethau Allgymorth

Mae gennym nifer o ganolfannau cymunedol allgymorth ledled y Fwrdeistref Sirol, ac rydym bob amser yn edrych am leoliadau newydd hawdd eu cyrraedd. Mae'r rhain yn gweithredu fel estyniad i'n gwasanaethau presennol ac yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bobl hyn sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig.

Yn ogystal â gwasanaethau allgymorth ffurfiol, rydym hefyd yn mynychu mannau cyhoeddus fel canolfannau siopa ac archfarchnadoedd ledled y fwrdeistref sirol i hyrwyddo ein hamrywiaeth o wasanaethau a chynnyrch.

## Gwiriad Budd-daliadau

Rydym yn darparu gwiriadau budd-daliadau llawn gan nodi pa fudd-daliadau i'w hawlio, helpu i gwblhau ffurflenni hawlio ac yn gallu cynnig gwasanaeth apelio ar gyfer ceisiadau aflwyddiannus.

**Ydych chi'n colli cyfle? Os ydych yn meddwl y gallwn helpu, ffoniwch: 01639 617 333.**



## Mwyafu Incwm

Bob blwyddyn, ni hawlir miliynau o bunnoedd o fudd-daliadau lles ac yn aml y rhai hynny sydd y mwyaf mewn angen yw'r bobl nad ydynt yn hawlio eu budd-daliadau. Fel Swyddfa Amgen Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), rydym yn darparu gwasanaeth proffesiynol a chyfrinachol. Mae ein tîm arbenigol o staff a gwirfoddolwyr profiadol yn rhoi gwybodaeth a chyngor ynghylch amrywiaeth o fudd-daliadau lles gan gynnwys:

- Lwfans Gweini (AA)
- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Tâl Annibyniaeth Bersonol
- Credyd Pensiwn
- Lwfans Gofalwyr
- Budd-dal Treth y Cyngor
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-dal Tai







## Gwasanaethau torri ewinedd

Mae gennym dîm ymroddedig o weithwyr proffesiynol hyfforddedig sydd wedi'i yswirio'n llawn a wnaiff dorri ewinedd eich bysedd/traed, ar amser ac mewn lleoliad sydd yn gyfleus i chi.

Dewiswch un o'n lleoliadau lleol, o gysur eich cartref neu dewch draw i'n clinig galw i mewn.

Nodwch fod hwn yn wasanaeth y codir tâl amdano ac mae rhai gwaharddiadau meddygol yn berthnasol. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth ar leoliadau ein clinigau, amserodd apwyntiadau a phrisiau.

## Gweithgareddau Cymdeithasol a Hamdden

Gallwn eich helpu i fyw bywyd i'r eithaf wrth gynnig amrywiaeth o gyfleoedd cymdeithasol a hamdden. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o ddarparwyr a grwpiau lleol eraill sy'n cynnig gweithgareddau yn y gymuned i bobl dros 50.

Mae gweithgareddau'n cynnwys dosbarthiadau gweithgareddau corfforol, grwpiau cerdded, celf a chrefft, clybiau cinio a dosbarthiadau cyfrifiaduron ayyb. Rydym yn hyderus bod rhywbeth i bawb i'w fwynhau!





## Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

Mewn partneriaeth gyda gwasanaeth Tân ac Achub Canol a Gorllewin Cymru, gall aelod o'n tîm wedi'i hyfforddi'n arbennig ymweld â'ch tŷ i nodi unrhyw risgiau tân posibl a chynghori ar faterion penodol sy'n peri pryder. Yna gallwn osod, am ddim, wahanol fathau o offer diogelwch tân sy'n cynnwys larymau mwg, larymau i'r trwm eu clyw, dillad gwely gwrthdan a dillad nos ac ati.

## Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref

Gyda phrisiau ynni'n cynyddu a'r newidiadau o ran budd-daliadau'n parhau, mae'n bwysig bod pobl hyn yn ymwybodol o dlodi tanwydd. Rydym yn darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad ynghylch lleihau costau ynni, cyngor am dariffau ac os oes angen helpu i newid darparwyr ynni. Rydym yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am daliadau tanwydd y gaeaf, taliadau tywydd oer a'r amrywiaeth o grantiau arian sydd ar gael.

## Cysylltwch â Ni

I gael mwy o wybodaeth ynghylch unrhyw rai o'r gwasanaethau hyn, ffoniwch Age Connects Castell-nedd Port Talbot: **01639 617 333**.

## Bod yn Ffrind

Nod ein gwasanaethau Bod yn Ffrind yw lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd i'r rhai hynny sydd ag ychydig neu heb rwydweithiau cymdeithasol.

Mae'r gwasanaethau'n helpu i wella iechyd a lles cyffredinol wrth annog a chefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned.

Mae cynlluniau bod yn ffrind a arweinir gan grwp o wirfoddolwyr yn annog ffurfio grwpiau o ffrindiau ac yn cynnig cefnogaeth gytbwys a pharhaol.

**I gael mwy o wybodaeth neu i weld a ydych yn gymwys, cysylltwch â: 01639 617 333.**

## Eiriolaeth Annibynnol

Mae nifer o bobl hyn yn gwbl annibynnol, yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus, siarad ar ran eu hunain ac â theulu neu ffrindiau sy'n eu cefnogi. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth eiriolaeth ar gael i'r nifer cynyddol o bobl hŷn nad oes ganddynt unrhyw un i'w cefnogi ac sy'n cael eu hanwybyddu, eu cau allan neu eu trin yn annheg.

Mae gennym nifer o staff a gwirfoddolwyr sy'n gallu delio ag amrywiaeth o faterion eiriolaeth, gan gynnwys materion diogelu sy'n cynnwys cam-drin neu esgeuluso.

**Cysylltwch â ni heb oedi am fanylion pellach.**

## Gwirfoddoli

Mae gwaith gan wirfoddolwyr yn hanfodol i'n sefydliad. Mae ein tîm gwirfoddoli amrywiol yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl hŷn, yn darparu cefnogaeth weinyddol a/neu'n helpu i godi arian yn y gymuned.

Gall gwirfoddoli ddatblygu sgiliau newydd, cynyddu hyder, hunan-barch a lles ac mae'n ffordd ardderchog i helpu i wneud ffrindiau newydd. Efallai yr hoffech roi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas leol, ennill profiad gwaith gwerthfawr, neu efallai eich bod am fod yn fwy cymdeithasol ac yn actif yn gorfforol.

**Os oes gennych unrhyw amser sbâr ac yr hoffech wirfoddoli, ffoniwch heddiw i gael mwy o wybodaeth am ein cyfleoedd gwirfoddoli cyffrous.**







# Ffurflen Archeb Reolaidd

Os hoffech wneud rhodd-daliadau rheolaidd i Age Connects Castell-nedd Port Talbot, cwblhewch y ffurflen gyfan isod ac yna ei datgysylltu a'i hanfon i: **Age Connects Castell-nedd Port Talbot, 37-38 Stryd Alfred, Castell-nedd, SA11 1EH.**

**Neu i wneud un rhodd-daliad yn unig**, cwblhewch yr adran sy'n cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad yn unig ac anfonwch y ffurflen gyda'ch taliad. Peidiwch ag anghofio ticio'r bocs ar y gwaelod i wneud cymorth rhodd ar eich rhodd-daliad.

**At y Rheolwr**

Eich banc

Eich cangen

Cyfeiriad y Banc

Côd Post

A fyddech gystal â throsglwyddo **£** ____ o fy

Math o gyfrif, e.e. Cyfrif Cyfredol

Rhif y Cyfrif ____ Côd Didoli ____ - ____ - ____

I: **Age Connects Castell-nedd Port Talbot**
Yn: **Banc Barclays, 37-38 Stryd Alfred, Castell-nedd**
Rhif Cyfrif: **00959979** Côd Didoli: **20-84-41**

Ar y (dyddiad llawn) ____ ac ar y (dyddiad) ____

bob mis wedi hynny hyd nes y clywir yn wahanol.

Llofnod

Dyddiad

Enw llawn (mewn prif lythrennau)

Cyfeiriad

Côd Post

**Ticiwch y bocs i gynyddu eich rhodd-daliad heb unrhyw gost ychwanegol** ☐ Rhodd Cymorth

Cadarnhaf fy mod wedi talu neu y byddaf yn talu Treth Incwm a/neu Dreth ar Enillion Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol (Ebrill 6 i 5 Ebrill) sydd o leiaf yn gyfartal â chyfanswm treth y bydd pob elusen a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC) y byddaf yn rhoi rhodd-daliad iddynt yn adennill ar fy rhoddion ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol. Deallaf nad yw trethi eraill fel TAW a Threth y Cyngor yn gymwys. Deallaf y bydd yr elusen yn adennill 25c o dreth am bob £1 rwyf wedi ei rhoi.

05/14

## Cynnyrch Advant~AGE

Rydym wedi datblygu ystod o gynnyrch a gwasanaethau gydag anghenion pobl hŷn mewn golwg.
Drwy ein partneriaeth Advant~AGE rydym yn cynnig y cynnyrch canlynol:

- Cynlluniau angladd
- Lifftiau grisiau
- Larymau personol a choffrau allweddi
- Rhyddhau ecwiti
- Gwasanaethau cyfreithiol yn cynnwys Ysgrifennu Ewyllys
- Cymhorthion byw bob dydd
- Cyngor Ariannol a Rheoli Cyfoeth
- Blodau ac Anrhegion
- Darpariaeth Ynni

**Am fwy o wybodaeth, ewch i www.acnpt.org.uk neu ffoniwch 01639 617 333.**

## Elusen Annibynnol

Fel elusen annibynnol, mae rhaid i ni godi ein harian ein hun ac rydym yn dibynnu'n fawr ar rodd-daliadau i gynnal ein cefnogaeth hanfodol. Gall y rhodd leiaf wneud gwahaniaeth enfawr, a bydd eich haelioni a'ch caredigrwydd yn helpu i ddiogelu dyfodol ein gwasanaethau y mae eu hangen yn fawr. Gallwch helpu i adeiladu dyfodol gwell i bobl hyn leol wrth:

- Wneud rhodd-daliad
- Gwneud rhodd-daliad rheolaidd drwy Archeb Reolaidd
- Gadael Rhodd i ni yn eich Ewyllys
- Codi arian i ni
- Gwneud rhodd-daliadau 'Er Cof' yn lle blodau
- Prynu cynnyrch neu wasanaethau Advant~AGE

## Rhodd-daliadau

Os hoffech wneud rhodd-daliad, gwnewch eich sieciau'n daladwy i: **'Age Connects Castell-nedd Port Talbot'**

A'i hanfon i:
**Age Connects Castell-nedd Port Talbot**
**37-38 Stryd Alfred, Castell-nedd,**
**SA11 1EH**

Neu defnyddiwch y ffurflen Archeb Reolaidd drosodd ar **dudalen 06**.

Helpwch ni i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn leol.

**Rhowch yn Lleol • Helpwch yn Lleol**







age connects
castell-nedd
port talbot.

Age Connects Castell-nedd Port Talbot yw teitl gweithredu Age Concern Castell-nedd Port Talbot

## Annibynnol • Lleol • Gwrando

# Rhifau Ffôn Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Age Connects Cymru | 0845 305 4134 |
| Action on Hearing Loss, Cymru | 0808 8080 123 |
| Benthyg Cymhorthion a Chyfarpar (Y Groes Goch Brydeinig) | 01554 749 374 |
| Cymdeithas Alzheimers | 01639 633 400 |
| Gofal a Thrwsio, Castell-nedd Port Talbot | 01792 321 122 |
| Gwasanaeth Gofalwyr, Castell-nedd Port Talbot | 01639 642 277 |
| Cyngor ar Bopeth Cymru | 08444 772 020 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) | 08456 060 265 |
| Gwasanaeth Brys (yr Heddlu, Tân neu Ambiwlans) | 999 |
| Llinell Gymorth ar gyfer Achosion nad ydynt yn Rhai Brys | 101 |
| Llinell Gymorth Cam-drin yr Hen Oed | 0808 8088 141 |
| Enfys (rhoddi celfi diangen) | 08450 094 646 |
| Diogelwch Tân ac Achub | 0870 606 0699 |
| Elusen Dyledion Step Change | 0800 138 1111 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | 03442 640 670 |
| RNIB Cymru | 02920 828 500 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Porth CNPT | 01639 686 802 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddog ar Ddyletswydd | 01639 765 505 |
| Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe | 01792 457 035 |
| Gwasanaeth Dewis Ffôn (atal galwadau diofyn) | 08450 700 707 |
| Cymorth i Ddioddefwyr, Cymru gyfan | 0300 303 0161 |

# LLINELL GYMORTH: 01639 617 333

Gwe: www.acnpt.org.uk • E-bost: info@acnpt.org.uk
Cyfeiriad Cofrestredig: 37-38 Alfred Street, Neath, SA11 1EH

AgeConnectsNPT @AgeConnectsNPT



Rhif Elusen Cofrestredig 1105203.